

Cylchlythyr | Circular

Ymgynghoriad ar gasglu data ar gyfer y 'fasged o nwyddau'

Dyddiad: 23 Awst 2017
Cyfeirnod: W17/21HE
At: Sefydliadau a reoleiddir yng Nghymru a'u hundebau myfyrwyr
Sefydliadau a gyllidir yng Nghymru a'u hundebau myfyrwyr
Partïon eraill sydd â diddordeb

Ymateb erbyn: 06 Hydref 2017
Cyswllt: Enw: Nicola Hunt
Rhif Ffôn: 029 2085 9735
Email: nicola.hunt@hefcw.ac.uk

Ym mis Mawrth 2017 cafodd CCAUC gylch gwaith i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i "lunio a chyhoeddi yn flynyddol brisiau basged o nwyddau, i'w chytuno gyda'r Llywodraeth, ar gyfer pob sefydliad."

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar gasglu a monitro data ar gyfer y 'fasged o nwyddau'.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Ym mis Mawrth 2017 cafodd CCAUC gylch gwaith i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i “lunio a chyhoeddi yn flynyddol brisiau basged o nwyddau, i’w chytuno gyda’r Llywodraeth, ar gyfer pob sefydliad.”
2. Mae’r cylchlythyr hwn yn darparu ymgynghoriad ar gasglu a monitro data ar gyfer y ‘fasged o nwyddau’.

Cefndir

3. Ym mis Medi 2016 cyhoeddodd yr [Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr](#), “Adolygiad Diamond”, ei adroddiad a’i argymhellion terfynol.
4. Un argymhelliad allweddol o Adolygiad Diamond oedd na ddylai myfyrwyr sy’n dilyn addysg uwch (AU) yng Nghymru brofi cynnydd yng nghostau nwyddau neu wasanaethau sefydliadol (fel llety) fel canlyniad negyddol i’r cynigion eraill a wnaed gan yr Adolygiad. Argymhellodd yr Adolygiad y dylai CCAUC “yn flynyddol, gasglu prisiau basged o nwyddau ar gyfer pob prifysgol a’u cyhoeddi.”
5. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i argymhellion Adolygiad Diamond ac ynddo roedd yn derbyn mwyafrif yr argymhellion, gan gynnwys yr argymhelliad i gyhoeddi’r ‘fasged o nwyddau’. Wedyn cafodd y dasg hon ei chynnwys yn llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2017-18 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017.
6. Cyfarfu swyddogion CCAUC â swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2017 i drafod yr eitemau arfaethedig ar gyfer y ‘fasged o nwyddau’ a’r egwyddorion ar gyfer casglu a chyhoeddi data.
7. Trafododd Cyngor CCAUC y trefniadau arfaethedig ar gyfer y dasg ‘basged o nwyddau’ yn ei gyfarfod ym mis Mai, gan gynnwys y rhestr arfaethedig o ‘nwyddau’ ar gyfer y ‘fasged’.

Costau astudio

8. Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr [W10/07HE](#) a oedd yn amlinellu ei gyfarwyddyd ar ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am gost astudiaethau AU, gyda chyfeiriad penodol at gostau gorfodol, costau o angenrheidrwydd a chostau dewisol.
9. Roedd y cyfarwyddyd yn argymhell y canlynol:
 - Dylai pob sefydliad sicrhau bod gwybodaeth am gost astudiaethau ar gael yn electronig, ar eu gwefannau, gan hefyd ystyried eu polisïau hygyrchedd a chyd-destun cyfreithiol y wybodaeth a ddarperir;

- Dylai'r wybodaeth a ddarperir fod ar ffurf amcangyfrifon, ac yn fanwl gywir adeg eu cyhoeddi, oherwydd gall newidiadau i'r economi effeithio ar rai o'r costau (ee costau llety, cyfraddau cyfnewid);
 - Dylid diweddarau gwybodaeth am gostau'n flynyddol o leiaf a dylid nodi dyddiad yr adolygiad diweddaraf, er mwyn i fyfyrwyr allu ystyried unrhyw newidiadau i'r economi wrth amcangyfrif eu costau;
 - Dylai sefydliadau ddynodi pa gostau sy'n debygol o fod yn berthnasol i fyfyrwyr rhan amser.
 - Dylai sefydliadau ddarparu dolenni o'r wybodaeth am y gost astudio i wybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael a chymhwysedd ar gyfer cefnogaeth o'r fath
10. Ers hynny, mae cyfarwyddyd yr [Awdurdod Defnyddwyr a Marchnadoedd](#) (CMA) wedi dod i gymryd lle'r cyfarwyddyd ac atgoffir sefydliadau bod rhaid iddynt gydymffurfio â chyfarwyddyd y CMA i sefydliadau AU ar hawliau myfyrwyr mewn cyfraith defnyddwyr, sy'n datgan y canlynol:
- dylai myfyrwyr gael gwybodaeth glir, amserol a manwl gywir er mwyn gwneud penderfyniad doeth am beth a ble maent am astudio;
 - dylai myfyrwyr gael gwybodaeth briodol ar yr amser priodol.
11. Trafodwyd y 'fasged o nwyddau' yng nghyfarfod mis Mai 2017 Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniadau Myfyrwyr CCAUC, a oedd yn cadarnhau eto bwysigrwydd cyfarwyddyd y CMA mewn perthynas â darparu gwybodaeth fanwl gywir ac amserol i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr.
12. Cyfarfu swyddogion CCAUC â swyddogion NUS Cymru (NUSW) ym mis Mehefin 2017 i drafod y cynigion ar gyfer casglu data'r 'fasged o nwyddau' a'r effaith bosib ar y corff amrywiol o fyfyrwyr.
13. Yn unol â dull cyfannol o weithredu Adolygiad Diamond, ac fel ymateb i'r materion a godwyd gan NUSW, mae CCAUC wedi ystyried sut gellid cynnwys 'costau astudio' ar lefel disgyblaeth yn y 'fasged o nwyddau'.
14. Daeth CCAUC i'r casgliad na fyddai'n bosib cynnwys costau lefel pwnc na disgyblaeth, am y rhesymau canlynol:
- mae'r costau sy'n codi o dripriau maes yn debygol o amrywio yn ôl lleoliad, a all newid o flwyddyn o flwyddyn, a byddai llawer o'r gost y tu hwnt i reolaeth y sefydliad;
 - mae'r costau sy'n codi o offer yn debygol o fod y tu allan i reolaeth y sefydliad;
 - mae costau llyfrau gwaith yn amrywio'n fawr o raglen astudio ac yn ôl rhestrau darllen gofynnol.
15. Mae ffocws y dasg 'basged o nwyddau' ar wybodaeth ledled y sefydliad, er mwyn galluogi CCAUC i fonitro a yw'r costau hyn yn codi ar gyfradd uwch na chwyddiant gydag amser. Nid yw'r wybodaeth a gesglir wedi'i bwriadu'n uniongyrchol ar gyfer cynulleidfa o fyfyrwyr. Yn sgil y cyfarfod gydag UCM Cymru a oedd yn ystyried y mater hwn, cytunodd CCAUC â swyddogion Llywodraeth Cymru ar ôl hynny na fyddai'r wybodaeth yn y 'fasged o

nwyddau' yn cael ei chyhoeddi, er y dylai'r holl wybodaeth fod ar gael yn gyhoeddus.

16. Byddai'n arfer da i sefydliadau gynnwys cyfrifiannell, neu fecanwaith tebyg, ar eu gwefannau, i alluogi myfyrwyr i adnabod a chyfrif yr ystod lawn o gostau astudio eraill, yn ogystal â chyfeirio at ddolenni at gefnogaeth a chynghor ar gyllidebau a chynllunio ariannol sylfaenol.

Eitemau Basged o Nwyddau

17. Mae CCAUC yn cynnig y dylai'r 'fasged o nwyddau' gael ei pharatoi yn unol â'r egwyddorion canlynol:
- Dylai'r costau yn gyffredinol fod ar lefel sefydliadol ac o dan reolaeth y sefydliad, a dylai sefydliadau gael cyfle i wybod pan mae costau y tu allan i'w rheolaeth (e.e. parcio ceir);
 - Dylid monitro'r costau hyn dros amser ac ar sail sefydliadol unigol, heb eu defnyddio fel cymharydd rhwng sefydliadau;
 - Dylid monitro costau'n flynyddol;
 - Dylai costau, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, gael eu datgan o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ac sy'n gadarn ac yn fanwl gywir, gan gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi yn unol â gofynion y CMA;
 - Dylid nodi pwynt cyswllt ar gyfer pob sefydliad, i gysylltu ag ef neu hi i gadarnhau manwl gywirdeb y data.

C1: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion arfaethedig? Esboniwch eich ymateb.

18. Mae CCAUC yn cynnig cynnwys yr eitemau canlynol yn y 'fasged o nwyddau':
- Llety sy'n eiddo i'r sefydliad ac yn cael ei reoli ganddo;
 - Aelodaeth o Undebau Myfyrwyr a/neu glybiau a chymdeithasau;
 - Ffioedd am ddefnyddio campfeydd neu ganolfannau chwaraeon;
 - Y gost ychwanegol (yn ychwanegol at lety) o ganlyniad i fyfyrwr yn dewis opsiwn arlwyyo llawn am lety;
 - Costau llyfrgell (gan gynnwys dirwyon);
 - Costau argraffu a llungopïo, gan gynnwys costau clymu traethodau a gwaith ymchwil;
 - Ffioedd meysydd parcio;
 - Costau tocynnau seremonïau graddio (gwesteion) a digwyddiadau croesawu (gwesteion a myfyrwyr);
 - Costau meithrinfa neu ofal dydd ar gyfer cyfleusterau sy'n eiddo i'r sefydliad ac yn cael eu gweithredu ganddo.

C2: Ydych chi'n cytuno â chynnwys y 'fasged o nwyddau' arfaethedig? Esboniwch eich ymateb.

Ffioedd

19. Mae gan Lywodraeth Cymru ac NUSW ddi-ddordeb mewn monitro gwybodaeth am lefelau ffioedd rhan amser ac ôl-radd, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd.
20. Cred CCAUC bod hwn yn faes cymhleth oherwydd mae'r ffioedd yn debygol o amrywio yn ôl cwrs a dull astudio. Mae hyn yn golygu na fyddai'n bosib eu cynrychioli fel cost ledled sefydliad yn y 'fasged o nwyddau'. Felly cred CCAUC mai'r dull gorau o gasglu a monitro'r wybodaeth hon am ffioedd yw ar wahân i'r 'fasged o nwyddau'.
21. Mae CCAUC yn bwriadu casglu'r data hyn gan ddefnyddio ffynonellau sydd wedi'u sefydlu eisoes, fel y Pecyn Adnoddau Meincnodi Ffioedd Hyfforddi gan y Bartneriaeth Gwybodaeth, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a gwefannau sefydliadol, neu eu casglu drwy gofnod myfyrwyr HESA. Gellid cynnal yr ymarfer hwn gan ddefnyddio'r un egwyddorion â'r ymarfer 'basged o nwyddau' a amlinellir uchod.

C3 Ydych chi'n meddwl y dylai ffioedd hyfforddi rhan amser ac ôl-radd gael eu casglu a'u monitro ar wahân i'r 'fasged o nwyddau'? Sut dylai'r wybodaeth hon gael ei chasglu?

Casglu data a monitro

22. Byddai'r gwaith o gasglu data 'basged o nwyddau' yn cael ei gydlyn gan swyddogion CCAUC yn flynyddol. Byddem yn darparu'r data wedi'u casglu i gysylltiadau sefydliadol ar gyfer eu hadolygu ac i gadarnhau bod y data'n fanwl gywir. Byddai enw'r cyswllt wedi'i enwebu yn y sefydliad yn cael ei gasglu'n flynyddol drwy gyfrwng cais am enwau llofnodwyr awdurdodedig a chysylltiadau data a anfonir at yr Is Ganghellor neu'r Pennaeth bob blwyddyn.
23. Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol mewn sefydliadau yng nghyswllt yr ymarfer 'basged o nwyddau', byddai swyddogion CCAUC yn casglu'r data gan ddefnyddio gwybodaeth o wefannau sefydliadau neu ffynonellau eraill sydd wedi'u cyhoeddi. Os nad oes data ar gael, er enghraifft, os oes eitem ar gael ar gyfer mwyafrif y sefydliadau, ond nid pob un, byddem yn casglu'r wybodaeth goll yn uniongyrchol gan sefydliadau. Rydym yn cynnig bod unrhyw gasglu data'n cael ei gyflawni drwy gyfrwng arolwg ystadegau cynnar y myfyrwyr addysg uwch (HESES). Ym mlwyddyn gyntaf y casglu, os nad yw amseriad y penderfyniadau am y 'fasged o nwyddau' yn caniatáu hyn, efallai y byddwn yn cynnal arolwg ar wahân.
24. Byddai CCAUC yn monitro canlyniadau'r ymarfer 'basged o nwyddau' ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'w Gyngor ac i swyddogion Llywodraeth Cymru.

C4 Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer casglu data a'r monitro wedyn ar gyfer y 'fasged o nwyddau'?

C5 Oes unrhyw faterion eraill neu ganlyniadau anfwriadol (megis materion technegol o ran casglu data) ynghylch y 'fasged o nwyddau' y byddech yn hoffi tynnu ein sylw atynt? Os felly, rhowch fanylion.

C6 Ydi'r cynigion yn cael unrhyw effeithiau positif neu negatif neu ganlyniadau bwriadol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig), yr iaith Gymraeg, cynaliadwyedd neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Ymatebion i

25. Anfonwch ymateb at Nicola Hunt (rhif ffôn 029 2085 9735; e-bost nicola.hunt@hefcw.ac.uk) erbyn 6 Hydref 2017.

Asesu effaith ein polisiau

26. Rydym wedi cynnal proses sgrinio asesu effaith ac wedi defnyddio'r canlyniadau fel sylfaen ar gyfer yr ymgynghoriad hwn i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ystyried effaith y weithdrefn ar yr iaith Gymraeg a'r effeithiau posib ar y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Nodau Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am fwy o wybodaeth am asesiadau effaith.